**Eitem ar yr agenda: 7**

**AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU**

**Y PANEL GWEITHREDOL**

**31 IONAWR 2005**

**LWFANSAU AR GYFER AELODAU ANNIBYNNOL Y PWYLLGOR SAFONAU**

Adroddiad gan y Clerc

**Diben yr Adroddiad**

1 A ddylai'r awdurdod wneud trefniadau i dalu lwfansau i aelodau annibynnol y pwyllgor safonau ai peidio.

**Cefndir**

2 Mae'r awdurdod wedi mabwysiadu cynllun lwfansau ar gyfer aelodau'r awdurdod tân. Er bod aelodau annibynnol y pwyllgor safonau yn cael eu had-dalu am dreuliau teithio a chynhaliaeth, nid ydynt yn derbyn unrhyw lwfans am yr ymrwymiad amser y mae'n rhaid iddynt ei roi ar gyfer y gwaith.

3 Mae'r arfer mewn cynghorau'n amrywio. Mae llawer sydd heb fod yn rhoi taliad i aelodau annibynnol. Ymhlith y rhai sydd yn talu, mae'r taliadau yn amrywio o £60 y dydd i £1600 o lwfans blynyddol ar gyfer cadeirydd y pwyllgor safonau, ac o £25 y cyfarfod i £1000 o lwfans blynyddol i aelodau annibynnol eraill. Mae o leiaf ddau awdurdod heddlu yng Nghymru yn gwneud taliadau, ond ymhlith yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru, deellir mai'r sefyllfa bresennol yw nad oes yr un ohonynt yn gwneud taliadau i aelodau annibynnol pwyllgorau safonau.

4 Yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr, penderfynodd y Pwyllgor Safonau y dylwn gyflwyno ei gais am roi ystyriaeth i'r mater o dalu lefel fechan o lwfansau, yn enwedig o ran hwyluso i ddenu aelodau annibynnol newydd pan ddaw cyfnodau swyddi'r aelodau presennol i ben.

5 Mae trafodaeth barhaus am y pwerau y gall cynghorau ddibynnu arnynt i wneud taliadau. O ran yr awdurdodau tân ac achub mae'r sefyllfa yn wahanol oherwydd nad yw eu pwerau yr un fath â rhai'r cynghorau ym mhob achos. Fy nghyngor i ar adeg ysgrifennu hwn yw nad oes sicrwydd fod gan yr awdurdod tân ac achub bŵer clir y gall ddibynnu arno i dalu lwfansau i aelodau ei bwyllgor safonau. Er enghraifft, nid

yw'r mân bwerau sydd yn adran 5 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yn ddigon eang. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfarfod.

6 Nid oes darpariaeth ar gyfer talu lwfansau o fewn y gyllideb, ond mae modd ymgorffori unrhyw benderfyniad i dalu lefel fechan o lwfansau.

**Cyngor**

7 Gellir ymdrin â'r egwyddor o dalu lwfansau ai peidio ar wahân i'r cwestiwn a oes pwerau i wneud y taliadau. Hyd yn oed os nad oes pwerau o'r fath yn bod ar hyn o bryd, efallai y daw'r awdurdod i'r casgliad ei fod yn dymuno talu lwfansau pan ddaw'r pwerau ar gael a lobïo'r Cynulliad i bwerau addas gael eu cyflwyno.

8 Y mater canolog yw a ddylai pobl gael eu talu am yr amser y mae gofyn iddynt ei dreulio ar fusnes yr awdurdod. Mae aelodau'r awdurdod tân nawr yn derbyn lwfans, gan gynnwys y rhai sy'n gwasanaethu ar y pwyllgor safonau. Er bod ymrwymiad amser aelodau annibynnol y pwyllgor safonau yn llai nag aelod cyffredin o'r awdurdod tân, a hynny'n debygol o aros felly, mae dadl y dylid cydnabod eu hymrwymiad yn briodol ar sail cysondeb a thegwch. Mae'r pwynt a wnaed gan y Pwyllgor Safonau ynghylch denu pobl i wasanaethu fel aelodau annibynnol hefyd yn berthnasol: gellid dadlau bod y trefniadau presennol yn cadw allan bobl ar incwm isel, dyweder, neu'r rhai a fyddai'n colli incwm oherwydd mynychu cyfarfodydd ac ati.

9 Ar y llaw arall, nid yw pob cyngor neu awdurdod tân yn talu lwfansau o'r fath. Un ddadl a roddir weithiau yw y gallai'r lwfansau beryglu annibyniaeth yr aelodau annibynnol mewn rhyw ffordd. Gyda pharch, fy marn i yw bod eu hanibyniaeth yn cael ei sicrhau gan ddarpariaethau'r ddeddfwriaeth ynghylch pwy all wasanaethu fel aelod annibynnol, nid gan y ffaith a oes lwfans yn daladwy ai peidio. Mae llawer o swyddogaethau ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys rhai tribiwnlysoedd a chyrff ymchwilio, lle rhoddir tâl.

10 Os mai dymuniad y Panel yw argymell i'r awdurdod tân y dylid cyflwyno lwfansau ar gyfer aelodau annibynnol y pwyllgor safonau, byddwn yn awgrymu y dylid gosod y rhain tua £200 neu £300 y flwyddyn gyda lefel lwfans fymryn yn uwch efallai ar gyfer y cadeirydd. Byddai unrhyw argymhelliad o'r fath yn gorfod cadw mewn cof y sefyllfa o ran a oes pwerau ar gael i dalu lwfansau o'r fath.

**Argymhelliad**

11 Bod y Panel yn ystyried yr adroddiad hwn ac yn penderfynu a yw'n dymuno argymell i'r awdurdod tân fod lwfansau i aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau yn cael eu cyflwyno.